Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ebost Email helo@s4c.co.uk / Gwefan Website s4c.co.uk
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 / Ffacs Fax +44(0)29 2075 4444

Cynllun Corfforaethol 2009

Adroddiad Sefyllfa Diwedd y Flwyddyn
Cyhoeddwyd 18.03.2010

Amcanion Corfforaethol 2009

Ein hamcan craidd yw darparu gwasanaeth teledu Cymraeg cynhwysfawr, ac o safon uchel sy'n adlewyrchu a chyfoethogi bywyd Cymru.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn rhannu'r gweithgareddau sy'n cynnal yr amcan graidd i dri is-amcan:

1. Rheoli'r broses o newid i ddigidol.

2. Cyflawni anghenion y Strategaeth Cynnwys.

3. Gweithredu o fewn fframwaith statudol a chyhoeddus S4C.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi statws amcanion Cynllun Corfforaethol 2009 ar ddiwedd y flwyddyn.

Amcan 1

Rheoli'r broses o newid i ddigidol

Targed	Sefyllfa diwedd y flwyddyn
Amcan 1 (1) Cynnal argaeledd gwasanaethau S4C yn ystod y newid i ddigidol.	• Symudodd S4C Digidol i Blethiad PSB (Mux 2) ar 09.09.2009.
Amcan 1 (2) Sicrhau bod trefniadau dosbarthu priodol ar gyfer gwasanaethau S4C yn eu lle tu hwnt i'r newid i ddigidol.	• Cytundeb dosbarthu wedi ei arwyddo i gario S4C Digidol ar Blethiad 2.
Amcan 1 (3) Gweithredu'r Cynllun Cyfathrebu a sicrhau monitro rheolaidd o berfformiad.	• Mae negeseuon ar sgrin yn cael eu cyfathrebu yn briodol o drosglwyddyddion S4C analog. • Mae negeseuon ar sgrin wedi eu cyfathrebu i bawb ar Freeview yng Nghymru er mwyn eu hysbysu am yr angen i ail diwnio ar neu wedi 09.09.2009. • Mae'r Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu a Digital UK yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau bod cynlluniau cyfathrebu yn cael ei gweithredu'n effeithiol. • Mae JM Creative a Working Word Public Relations Cyf. wedi ennill y tendr i ddarparu'r ymgyrch gyfathrebu ar gyfer S4C. • Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus gan yr Awdurdod yng Nghaerfyrddin, Llangefni a'r Wyddgrug yn unswydd i ledaenu'r negeseuon am ail diwnio Freeview a'r newid i ddigidol. • Atebodd Gwifren Gwylwyr a staff S4C dros 5,000 o alwadau gan wylwyr er mwyn hwyluso'r trosiad i ddigidol o fis Medi. • Cynhaliwyd seminarau er mwyn esbonio'r trosglwyddiad i ddigidol i bob aelod o staff S4C ac i'r sector annibynnol. • Cynhaliwyd seminar yn Eisteddfod yr Urdd ar gyfer y sector annibynnol i esbonio'r trosglwyddiad i ddigidol. • Cyhoeddwyd atodiadau arbennig ar gyfer papurau bro yn esbonio'r newid i ddigidol yn yr ardaloedd perthnasol. • Mae Gr p monitro perfformaid wedi cyfarfod yn wythnosol. • Mae'r broses fonitro wedi ei hasesu gan yr archwilwyr mewnol.

Amcan 1 (4) Hyrwyddo Manylder Uwch.	• Rydym yn hyrwyddo ein polisi Manylder Uwch i'r diwydiant drwy gynnal seminarau. Mae cynllun cyfathrebu i'r cyhoedd yn cael ei lunio. • Rydym yn aelod o Gr p Darlledwyr a Chynhyrchwyr Offer y D.U. sydd yn cydweithio â'i gilydd er mwyn hyrwyddo Manylder Uwch ar Freeview.
Amcan 1 (5) Sicrhau bod fframwaith hawliau priodol mewn lle ar gyfer comisiynu cynnwys.	• Mae trafodaethau yn parhau gyda'r sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau fframwaith briodol.
Amcan 1 (6) Cynnal lefelau gwylio yn y rhanbarthau yn ystod y newid i ddigidol.	• Cynhaliwyd monitro cyson o'r lefelau gwylio rhanbarthol yn ystod y newid i ddigidol. Yn dilyn cwblhau'r newid mewn rhanbarthau penodol roedd y lefelau gwylio yn parhau yn debyg iawn i'r cyfnod cyn y newid.

Amcan 2

Cyflawni'r Strategaeth Cynnwys

Targed	Sefyllfa diwedd y flwyddyn
Amcan 2 (1) (i) Cyhoeddi Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2009. (ii) Cyhoeddi Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2008. (iii) Gweithredu Strategaeth Cynnwys S4C ar gyfer cyfnod 2009 ymlaen.	• Cyhoeddwyd. • Cyhoeddwyd. • Cyhoeddwyd 15.10.2008.
Amcan 2 (2) Gweithredu yn unol â Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2009 a neilltuo o leiaf £78 miliwn i gyllideb comisiynu. Cydymffurfio gyda thargedau'r Ddeddf Gyfathrebiadau ac Ofcom:	• Yn gweithredu o fewn yr amcanion.
(i) O leiaf 25% o amser darlledu i'w roi i gynyrchiadau o'r sector annibynnol.	• Cyflawnwyd – canlyniad yn 89%.
(ii) 90% o Raglenni gwreiddiol[1] (oriau brig[2]).	• Cyflawnwyd – canlyniad yn 100%.
(iii) 80% o Raglenni gwreiddiol (holl oriau).	• Cyflawnwyd – canlyniad yn 99%.
(iv) 60 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (holl oriau).	• 82 awr 30 munud.
(v) 30 awr y flwyddyn o Raglenni Materion Cyfoes (oriau brig).	• 76 awr 32 munud.
(vi) 200 awr y flwyddyn o Raglenni Newyddion[3] (holl oriau).	• 265 awr 45 munud.
(vii) 150 awr y flwyddyn o Raglenni Newyddion[4] (oriau brig).	• 181 awr.
(viii) Un Rhaglen Newyddion ddyddiol yn ystod yr oriau brig.	• Cyflawnwyd.

[1] Gwreiddiol = Rhaglenni a gomisiynir gan neu a gynhyrchir ar gyfer S4C ag yn waith Ewropeaidd (directive TWF), boed yn ddarllediadau gwreiddiol neu yn ail ddangosiadau. Mae'r cyfanswm yn cynnwys yr oriau a gynhyrchir gan y BBC.

[2] (Oriau Brig fel y diffinnir gan Ofcom= 18.00 – 22.30)

[3] Mae Newyddion yn cynnwys bwletin tywydd.

[4] Mae Newyddion yn cynnwys bwletin tywydd.

(ix) O leiaf 35 awr o raglenni Cymraeg yn gydamserol ar wasanaethau S4C ac S4C Digidol bob wythnos.	• 57 awr.
(x) 140 awr y flwyddyn o Raglenni plant gwreiddiol.	• 289 awr (heb linciau rhwng rhaglenni).
Amcan 2 (3) Gweithredu o fewn y Cod Ymarfer a'r Telerau Masnach a chydymffurfio gyda'r targedau sydd wedi eu cymeradwyo gan Ofcom.	• Rydym wedi bod yn trafod yr egwyddorion gyda TAC, ac mae papurau ar waith er mwyn cymeradwyo unrhyw newidiadau.
Amcan 2 (4) Gweithredu o fewn fframwaith y Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C i sicrhau bod cyfraniad statudol y BBC yn gyson â'r Strategaethau Rhaglenni a Chynnwys.	• Awdurdod S4C wedi cymeradwyo Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2009. • Awdurdod S4C wedi cymeradwyo'r ddogfen Adolygiad o Berfformiad Rhaglenni'r BBC ar S4C o dan y Bartneriaeth Strategol ar gyfer 2008. Yr Ymddiriedolaeth wedi darparu asesiad. • Y broses o adnewyddu'r Bartneriaeth ar gyfer 2010 ymlaen wedi cychwyn.
Amcan 2 (5) (i) Cynnal cyrhaeddiad wythnosol ar gyfer y gwasanaethau Cymraeg ar lefel 2008.	Bydd data cyrhaeddiad 2009 yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol 2009. *(Ffigyrau 2008 mewn cromfachau)* **W1 – W53 2009** • Cyrhaeddiad Wythnosol Holl Wylwyr Oriau Cymraeg <u>yn y DU</u> : 545,000 (590,*000*). • Cyrhaeddiad Wythnosol Holl Wylwyr Oriau Cymraeg <u>yng Nghymru</u> : **17.3% sef 449,000** (19.*5% sef 504,000*). • Cyrhaeddiad Wythnosol Holl Wylwyr Oriau Cymraeg <u>Tu Allan i Gymru</u> : 96,000 (*86,000*).
(ii) Anelu at ddenu cyrhaeddiad o dros 100,000 o wylwyr ar gyfer 20 rhaglen Gymraeg yn ystod y flwyddyn.	**<u>Wythnos 1 – 53, 2009 (38 Rhaglen)</u>** 1. **Y Clwb Rygbi** Gweilch v Gleision – (Gwe), W53 – 427,000 2. **Y Clwb Rygbi Rhyngwladol** – UDA v Cymru – (Sad), W23 – 301,000 3. **Katherine Jenkins o'r Brangwyn –** (Sul), W44 – 237,000 4. **Y Clwb Rygbi/Llewod '09** – Gleision v Awstralia (Maw), W48 – 212,000 5. **Rygbi: Dreigiau v Sale – Cwpan LV** – (Gwe), W45 – 183,000 6. **Rygbi/Llewod '09** – (Sad), W23 – 170,000 = **Sgorio:** Liechtenstein v Cymru (Mer) - W42 – 170,000 8. **Y Clwb Rygbi -** Llanelli v Abertawe - (Sad), W53 – 161,000 9. **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** uchafbwyntiau'r wythnos - (Sul), W32 – 159,000 10. **Eisteddfod Genedlaethol Cymru -**

dydd – (Sad), W31 – 157,000

11. **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** – cyngerdd agoriadol – (Gwe), W31 – 155,000
12. **Cyngerd Sêr Y Steddfod** – (Gwe), W52 –152,000
13. **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** – noson o gystadlu - (Gwe),W32 – 146,000
14. **Gala Mudiad Y Ffermwyr Ifanc** - (Sad), W35 – 144,000
15. **Llangollen 09** - (Sad), W28 – 143,000

= **Cefn Gwlad** (Llun) – W1 – 143,000

17. **Sioe Sir Benfro: Digwyddiadau 09** – (Iau), W34 – 135,000
18. **Ista'nbwl** - (Gwe), W49 – 133,000
19. **Cyngerdd Rhydian** –(Iau), W19 – 131,000
20. **Côr Cymru 2009** - (Sad), W10 – 125,000
21. **Shane** - (Maw), W6 – 123,000
22. **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** - uchafbwyntiau'r dydd - (Llun), W32 – 122,000
23. **Y Clwb Rygbi** – Scarlets v Barbariaid (Sad), W5 – 120,000
24. **Cyngerdd Gala Llangollen 09** – (Sul), W28 – 118,000

= **Llangollen 09 – dydd** – (Sad), W28 – 118,000

26. **Bro...** – (Mer), W34 – 116,000
27. **Iolo yn Rwsia** - (Llun), W18 – 115,000

= **Beryl, Cheryl a Meryl** – (Iau), W1 – 115,000

29. **Y Clwb Rygbi Rhyngwladol -** Cymru v Samoa (Gwe), W46 – 114,000
30. **Rhydian** - (Iau), W19 – 113,000
31. **Cyngerdd C Ffactor** – (Sad), W1 – 112,000
32. **Y Clwb Rygbi –** Castell Nedd v Llanelli – (Sad), W19 – 109,000
33. **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** – Ar Noson Fel Hon (Sad), W32 – 106,000
34. **Mil O Leisiau** – (Sad), W5 – 104,000

= **Cwpan Heineken** – (Sul), W3 – 104,000

36. **Sgorio:** Llanelli v Motherwell – (Iau), W28 – 103,000
37. **G yl Pontardawe:** Digwyddiadau 09 – (Iau), W35 – 100,000

= **Martha, Jac a Sianco** – (Sul), W23 – 100,000

*Noder mai dim ond ffigwr uchaf fesul diwrnod ar gyfer **Pobol y Cwm**, un **Y Clwb Rygbi** o bob cynghrair a dim ond un bennod o bob cyfres sy'n cael ei gyfrif uchod.*

(iii) Cynyddu ein cyrhaeddiad flwyddyn ar flwyddyn drwy ddarparu cynnwys ar lwyfannau priodol.	• Sesiynau gwylio ar-lein wedi cynyddu **1%** blwyddyn-ar-flwyddyn 2009 v 2008. • Sesiynau gwylio rhaglenni ar-lein yn ystod 2009 yn **1,089,114**. <u>Ystadegau Gwefan S4C 2009</u>: Ymweliadau = i fyny 57% ar 2008 Trawiadau = i fyny 94% ar 2008 Argraffiadau Tudalen = i fyny 49% ar 2008
(iv) Sicrhau bod mesuriadau priodol i fesur gwylio ar draws bob llwyfan.	• Penodwyd cwmni Nielsen i fesur ystadegau gwefan S4C o 2010-2012 i safonau diwydiant sydd wedi ei dystio gan ABCe. • Amcanion Panel TNS 2009 o wylio rhaglenni S4C ar-lein - ychwanegiad o **0.6%** i'r sesiynau gwylio.
(v) Cynnal canran gwylwyr o dan 45 oed yn yr oriau brig.	• 2009 - **21%** • 2008 **- 24%**
Amcan 2 (6) Cwrdd â thargedau Ofcom ar isdeitlau, sain ddisgrifio ac arwyddo yn ystod holl oriau S4C Digidol. **2009 2010** Isdeitlo (Saesneg): 75% 80% Arwyddo: 4% 5% Sain ddisgrifio: 10% 10%	Cyrhaeddwyd y targedau ar gyfer isdeitlau, sain ddisgrifio ac arwyddo ar S4C Digidol. **<u>Chwarter 4</u>** Isdeitlo (Saesneg) 93.04% Arwyddo 4.25% Sain Ddisgrifio 11.89% **<u>Ffigyrau am y flwyddyn (w1-53)</u>** Isdeitlo (Saesneg) 92.05% Arwyddo 4.19% Sain Ddisgrifio 11.96%
Amcan 2 (7) Rydym yn anelu i gynnig isdeitlau Saesneg ar 100% o oriau gwreiddiol (yn amodol ar hawliau).	• Fel y gwelir uchod, mae'r ffigwr presennol yn 93%.
Amcan 2 (8) Rydym yn anelu i gynnig 10 awr yr wythnos o oriau gwreiddiol gydag isdeitlau 889.	• Cyflawnwyd.
Amcan 2 (9) Bydd rhaglenni Channel 4 yn cael eu hamserlenni yn unol â ystyriaethau masnachol.	• Yn digwydd.
Amcan 2 (10) Adolygu yn gyson ac adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig ein gwasanaethau ar lwyfannau eraill a newydd yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt.	• Yn parhau.
Amcan 2 (11)	

Mabwysiadu a gweithredu Polisi Archifo.	• Mae'r prosiect archifo wedi ei gwblhau. • Mae'r polisi i'w gymeradwyo.
Amcan 2 (12) Adlewyrchu blaenoriaethau'r Strategaeth Cynnwys a sicrhau rhagoriaeth yn ein cynlluniau cyfathrebu.	• Y broses o gynllunio yn parhau.
Amcan 2 (13) Sicrhau bod Gwifren Gwylwyr S4C ar gael trwy gydol y flwyddyn o leiaf o 09.00 tan 22.00 i dderbyn sylwadau, cwynion a cheisiadau am wybodaeth gan ein gwylwyr ar 0870 6004141 neu gwifren@s4c.co.uk a hyrwyddo'r gwasanaeth.	• Mae Gwifren Gwylwyr S4C yn cynnig ymateb dyddiol gan wylwyr i'n gwasanaethau. Hysbysir staff y Wifren ar faterion allweddol. • Mae staff y Wifren wedi cael eu hyfforddi'n arbennig i ddelio gydag ymholiadau am y troslwyddiad i ddigidol. • Mae staff y Wifren wedi bod yn allweddol wrth ddelio gydag ymholiadau gan y cyhoedd yn ymwneud gydag ail diwnio Freeview yn ogystal ag ymholiadau cyffredinol am y newid i ddigidol. • Mae staff y Wifren wedi mynychu digwyddiadau cyhoeddus ar y cyd gyda'r cwmni marchnata a Digital UK.
Amcan 2 (14) Sicrhau bod systemau mewn lle i sicrhau bod y gwasanaethau yn cydymffurfio gyda'r gyfraith a chodau perthnasol.	• Mae systemau perthnasol mewn lle.
Amcan 2 (15) Sicrhau trefniadau addas i godi lefel sgiliau staff S4C ac yn y diwydiant. Cyflawni rhagoriaeth drwy gyfrannu at adnabod blaenoriaethau hyfforddi a buddsoddi mewn darpariaeth hyfforddiant.	• Cynllun Datblygu Talent yn cael ei weithredu. • Fframwaith hyfforddi yn weithredol. • Cynhaliwyd seminar Manylder Uwch mewn cydweithrediad â Cyfle ar 14.10.2009.
Amcan 2 (16) Gweithredu'r Polisi Ysgoloriaethau.	• Dyfarnwyd ysgoloriaeth athletau am y drydedd flwyddyn i Lianne Clarke, David Guest, Brett Morse a Dewi Rhys Griffiths. • Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Newyddiadurol T Glynne Davies S4C i Elliw Hughes. • Mae gwobr arbennig Ll r Williams yn parhau. • Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Golff i Gemma Bradbury a Rhys Pugh. • Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Syr Geraint Evans i Ting Wang, Catherine O'Carrol and Reisha Adam. • Dyfarnwyd Ysgoloriaeth i Owen Powell i astudio ôl gynhyrchu sain yn y NFTS am ail flwyddyn.

Amcan 3

Yr Awdurdod a'r Swyddogion i weithredu o fewn fframwaith statudol a chyhoeddus S4C.

Targed	Sefyllfa diwedd y flwyddyn
Amcan 3 (1) Gweithredu o fewn y fframwaith sydd wedi ei gosod allan yn y ddogfen "Rôl yr Awdurdod".	• Yn gweithredu.
Amcan 3 (2) Gweithredu cynlluniau blynyddol yr Awdurdod, Pwyllgorau'r Awdurdod a Bwrdd Cyfarwyddwyr S4C.	• Yn gweithredu.
Amcan 3 (3) Gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol.	• Yn gweithredu.
Amcan 3 (4) Meithrin perthynas agored, atebol ac adeiladol gyda'n gwylwyr.	• Cynhaliwyd digwyddiadau pwrpasol yn Aberaeron, Dinbych, Y Barri, Llandudno, Llanymddyfri, Y Drenewydd, Bangor, Llanrwst, Coleg Gwent a Glanyfferi er mwyn hyrwyddo rhaglenni a gwasanaethau i ddysgwyr. • Mae Gwifren Gwylwyr wedi bod yn weithredol gydol y flwyddyn. • Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus yn Llandudno i ddathlu G yl Ddewi. • Cynhaliwyd taith gyda mudiad Twf, sy'n hyrwyddo trosglwyddo'r Gymraeg i blant, mewn 10 lleoliad drwy Gymru. • Trefnwyd taith ysgolion o gwmpas 30 ysgol i hyrwyddo gwasanaethau S4C i blant. • Trefnwyd taith bws S4C o gwmpas Cymru i hyrwyddo gwasanaeth plant – **Cyw.** • Cafwyd taith ar y cyd gyda Mudiad Ysgolion Meithrin yn dangos cymeriadau newydd **Cyw** – **Igi, Tigi, Bip a Bop.** • Cynhaliwyd Taith Nadolig **Cyw** wnaeth ymweld â 12 o leoliadau ar draws Cymru. • Cynhaliwyd ymchwil ar-lein er mwyn canfod ymateb defnyddwyr i wasanaethau mynediad S4C. • Bu cyfathrebu cyson drwy'r wasg a'r cyfryngau o ran rhaglenni a digwyddiadau. • Enillodd S4C Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid fel cydnabyddiaeth o ansawdd ein gwasanaeth i gwsmeriaiad yn Ebrill 2009. • Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi

	adnabod S4C fel un o'r cyrff gorau sydd wedi perchnogi cynllun iaith a chynllun darpariaeth Cymraeg mewn modd amserol a rhagweithiol. • Cynhaliwyd Noson Gwylwyr yng Nghaerfyrddin, Llangefni, a'r Wyddgrug.
Amcan 3 (5) Sicrhau bod archwiliadau mewnol ac allanol yn cael eu cynnal.	• Archwiliad allanol wedi digwydd. Mae cynllun 3 mlynedd yr archwilwyr mewnol yn weithredol.
Amcan 3 (6) Gosod o flaen y Senedd a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol.	• Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol 2008 ar 25.06.2009.
Amcan 3 (7) Adolygu Cynllun Corfforaethol 2009.	• Cyflwynwyd sefyllfa diwedd y flwyddyn i'r Awdurdod ar 21.01.2010.
Amcan 3 (8) Sicrhau ein bod yn gweithio o fewn polisïau S4C ac yn adolygu a diwygio nhw yn ôl y gofyn.	• Mabwysiadwyd polisi a chanllawiau ar gyfer Darllediadau Etholiadol Pleidiau (PEB) yn ystod Etholiadau Ewrop 2009.
Amcan 3 (9) Lle'n briodol ymateb i Adolygiadau gan y Llywodraeth, y Cynulliad, Ofcom, y Comisiwn Ewropeaidd ac eraill.	• Cyflwynwyd ymateb ffurfiol i Adroddiad Interim Prydain Ddigidol y Llywodraeth. • Rhoddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gerbron ymchwiliad Pwyllgor Dethol Materion Cymreig San Steffan a Phwyllgor Cymunedau a Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. • Ymatebodd S4C i'r ymgynghoriadau isod yn 2009 sef: - Ymgynghoriad Prydain Ddigidol; - Ymgynghoriad Ofcom ar Adolygiad o Wasanaethau Mynediad Teledu; ("Review of Television Access Services"); - Ymgynghoriad Ofcom ar Adolygiad Cod Darlledu ("Broadcasting Code Review"); - Ymgynghoriad Ofcom ar Adolygiad ar ddulliau gweithredu ar driniaeth cwynion, achosion a chosbau ("Review of procedures for handling broadcasting complaints, cases and sanctions"); - Ymgynghoriad Prydain Ddigidol ar Asesu y fframwaith polisi ar

	Hawliau Gwasanaeth Cyhoeddus ("Digital Britain: Assessing the policy framework for Public Service Rights"); - Ymgynghoriad Ofcom ar ("PRS Scope Review"); - Ymgynghoriad Ofcom ar ("the consultation regarding proposals for the regulation of video on demand service"); - Ymgynghoriad ADdCCh ar Ddigwyddiadau Darlledu-am-ddim.
Amcan 3 (10) Gweithredu prosesau tendr i hybu cystadleuaeth. Cynnal rhestr o dendrau.	• Yn gweithredu proses dendro. • Yn cynnal rhestr o dendrau.
Amcan 3 (11) Gweithredu'r Polisi Masnachu Teg.	• Yn weithredol.
Amcan 3 (12) Derbyn difidend oddi wrth S4C Masnachol.	• Bwrdd S4C Masnachol wedi datgan difidend a fydd yn cael ei gyhoeddi yn Natganiad Ariannol Awdurdod S4C ar gyfer 2009.
Amcan 3 (13) Gweithredu o fewn fframwaith Cod Cwynion S4C.	• Yn gweithredu.
Amcan 3 (14) Cymeradwyo cyllideb 5 mlynedd diwygiedig.	• Adolygiad Cyllideb wedi digwydd ac yn parhau.
Amcan 3 (15) Llai na 4.5% o holl wariant i'w wario ar orbenion.	• Yn amodol ar archwiliad.
Amcan 3 (16) Cynnal Cofrestr Risg yn unol â'r Polisi Risg. Cyflwyno a Monitro'r Gofrestr Risg a Chynllun Cynnal Busnes yn chwarterol.	• Yn monitro yn gyson.